HEDDLU GOGLEDD CYMRU | NORTH WALES POLICE
Gogledd Cymru diogelach | A safer North Wales

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio 2023 / 24

**Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2023 / 24**

**Mynegai**


**Datganiad y Cadeirydd**

1. **Trosolwg**
2. **Gwaith y Cydbwyllgor yn ystod 2023/24**
3. **Archwilio Mewnol**
4. **Archwilio Allanol**
5. **Meysydd i'w Hystyried**
6. **Llywodraethu**
7. **Rheoli Risg a Rheolaethau**
8. **Gwerth am Arian**
9. **Adroddiadau Ariannol a Rheoli'r Trysorlys**
10. **Codi Pryderon**
11. **Dyddiadau Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2024/25**

## Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2023/24

## Datganiad y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor ('y Cydbwyllgor') Archwilio; ('y CA') sy'n cwmpasu gweithgarwch am y cyfnod 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024.

Yr aelodau o'r CA a wasanaethodd am y flwyddyn oedd:-

| Enw: |
|---|
| Rachel Barber |
| John Cunliffe |
| Sarah Davies |
| Julie Perkins |
| Allan Rainford |

Diben y CA ydy rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol, a thrwy hynny gynorthwyo sicrhau fod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol mewn lle. Cynhaliwyd pob cyfarfod yn ystod 2023/24 yn hybrid.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y CA adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ('TIAA') ar eu rhaglen arolygu y cytunwyd arni. Adolygodd gynnydd ar gamau gweithredu a nodwyd yn eu hadroddiadau. Yn ystod 2023/24, ni chodwyd materion o bwys gan y Cydbwyllgor i'r SCHTh neu Brif Gwnstabl HGC ('PGHGC').

Yn ogystal â dibynnu ar adroddiadau'r archwilwyr allanol, Archwilio Cymru, ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer 22/23, ystyriodd y Cydbwyllgor yr holl ddogfennau a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn gan Brif Swyddog Cyllid y CHTh a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru (' y Swyddogion Cyllid'). Y Swyddogion Cyllid a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn oedd:-

| Rôl | Enw: |
|---|---|
| Prif Swyddog Cyllid – CHTh | Kate Jackson |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau – HGC | Seb Phillips |
| Pennaeth Cyllid – Dirprwy Brif Swyddog Cyllid | Guto Edwards |

Ymhlith yr enghreifftiau o weithgarwch penodol y mae'r CA wedi ymgymryd â hwy er mwyn hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu unrhyw faterion o bwys, gan syrthio o fewn ei gylch gorchwyl, mae:

- Adolygiad o'r datganiadau ariannol blynyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar bolisïau ac arferion cyfrifo. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwyslais ar eglurder yr adroddiad naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Derbyn sicrwydd ar y strategaeth gyfalaf a strategaeth rheoli'r trysorlys, gyda'r strategaeth gyfalaf yn parhau i fod yn heriol yn yr amgylchfyd allanol presennol

- Adolygu'r strategaeth rheoli risg, ei gweithredu a chyflawni gwelliannau i reoli risg a mapio sicrwydd. Gwneir trwy adroddiadau rheolaidd a chraffu ar adroddiadau at wraidd y mater a flaenoriaethir
- Derbyn sicrwydd ar yr amgylchfyd rheoli TG gan gynnwys rheolaethau diogelwch seiber a rheoli risg cyffredinol y seilwaith a'r ystâd ymgeisio er mwyn cynnal arian cyfredol
- Adolygu trefniadau a strwythurau llywodraethu effeithiol, effeithlon a chadarn
- Derbyn gwybodaeth, adroddiadau a sicrwydd mwy manwl ar werth am arian
- Derbyn sicrwydd ar yr hunanasesiad a ymgymerwyd gan yr Heddlu o ran Cod Rheoli Ariannol CIPFA
- Derbyn diweddariadau sefydliadol ym mhob cyfarfod chwarterol gan yr Heddlu a SCHTh er mwyn parhau bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau allweddol sy'n digwydd o fewn yr Heddlu a SCHTh
- Sesiynau Briffio neu Adroddiadau at Wraidd y Mater ar: Uned Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Cytundeb Cyflawni Gwasanaeth TGCh, Cyflwyno Gweithio'n Ystwyth, Trefniadau Llywodraethu Cydweithio, Cronfa Strydoedd Diogelach, Diogelwch Merched yn y Nos, Trais yn erbyn Merched a Genethod, Fframwaith Rheoli Ceisiadau, Bygythiadau Diogelwch Seiber, Risgiau TG a Thechnoleg, Cynaliadwyedd a phroses gomisiynu SCHTh
- Gwaith y pwyllgor moeseg
- Diweddariad yn ymwneud ag arolygon HMICFRS
- Cymryd rhan wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio fewnol, gan gynnwys archwiliadau cydweithredol
- Adolygiad o effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol.
- Cyfarfod â CA Cymru Gyfan

O ran y Datganiad Cyfrifon, roedd parodrwydd yr Heddlu a'r CHTh ar gyfer yr archwiliad diwedd blwyddyn yn dda ac ni chodwyd materion sylweddol. Yn unol â llinell amser Archwilio Cymru, adolygwyd y Datganiad Cyfrifon gan y CA ym mis Hydref 23. Cyhoeddodd Archwilio Cymru eu hadroddiad ar gwblhau'r archwiliad yng nghyfarfod mis Mawrth 2024.

Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i holl staff cynorthwyol ac uwch swyddogion sydd wedi cynorthwyo'r CA wrth iddo fodloni ei gyfrifoldebau. Dros y flwyddyn, fel Cadeirydd y CA, rwyf wedi clustnodi llawer o gamau sydd angen eu dilyn er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i aelodau'r cydbwyllgor. Mae hyn yn ffurfio rhan bwysig o'r sicrwydd cyffredinol a roddir gan y cydbwyllgor. Rwyf yn gwerthfawrogi ymdrechion staff a swyddogion o ran hyn. Rwyf hefyd yn diolch i'r archwilwyr allanol a mewnol, y timau o Archwilio Cymru a TIAA yn y drefn honno, am eu hadroddiadau a'u cyfraniadau i'r cyfarfodydd. Mae'r ddeialog barhaus hon wedi cynorthwyo i ddatblygu'r fframweithiau o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Rwyf yn credu fod y Cydbwyllgor wedi gweithredu'n annibynnol gan gynnig her adeiladol a thryloywder ategol. Mae wedi cyflawni o ran ei gylch gorchwyl ac mae'n edrych am gyfleoedd am welliant parhaus wrth graffu mewn amgylchfyd ymddiriedol, cynorthwyol a chymorth cilyddol. Hoffwn ddiolch i Sarah sydd wedi gadael ei rôl fel Aelod Pwyllgor y CA ar ddiwedd ei thymor tair blynedd. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ystod mis Mawrth, ac edrychwn ymlaen at groesawu ein haelod pwyllgor newydd ar yr adeg iawn. Diolch hefyd i holl aelodau'r CA am eu hannibyniaeth, eu craffu, a'u hamser.

**Rachel Barber**
**Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio**

**Mai 2024**

## 1. Trosolwg

Diben y CA yw rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r CHTh a PGHGC ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol, a thrwy hynny gynorthwyo i sicrhau fod effeithlonrwydd a threfniadau sicrhau effeithiol ar waith. I'r perwyl hwn, mae'r Cydbwyllgor yn gallu ac mae gofyn iddo oruchwylio a darparu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli SCHTh a'r Heddlu, y broses adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol, ac archwilio mewnol ac allanol.

Mae Aelodaeth y Cydbwyllgor yn cynnwys aelodau allanol ac annibynnol. Mae Cylch Gorchwyl y CA ynghlwm yn **Atodiad 1.** Yn ystod 2022/23 adolygodd yr Heddlu a SCHTh gylch gorchwyl y CA, yn unol â chanllawiau CIPFA, yn ei Fwrdd Llywodraethu ar y Cyd. Daeth y rhain i rym ar ddechrau 23/24.

Yn ystod 2023-24 cyfarfu'r Pwyllgor yn hybrid bedair gwaith yn unol â'i amserlen arfaethedig:-

- 27 Gorffennaf 2023
- 28 Medi 2023
- 7 Rhagfyr 2023
- 28 Mawrth 2024

Ynghyd â'r cyfarfodydd, cynhaliwyd sesiwn friffio dechnegol er mwyn rhoi mwy o adborth manwl ar yr adroddiad blynyddol a chyfrifon cyn y gymeradwyaeth olaf.

Roedd agendau, cofnodion a phapurau ar gael i'r cyhoedd cyn yr holl gyfarfodydd a drefnwyd. Yr eithriad i hyn oedd lle ystyriwyd eitemau yn amhriodol i'w cyhoeddi. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd agenda sesiwn gaeedig, cofnodion a phapurau ar gael i holl aelodau'r CA cyn yr holl gyfarfodydd a drefnwyd.

Mae gan yr Archwilwyr Allanol, yr Archwilwyr Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Cyllid wahoddiad sefydlog i fynychu pob cyfarfod a gwneud hynny'n rheolaidd. Daeth y CHTh i gyfarfod mis Hydref a daeth y Prif Gwnstabl i gyfarfod mis Mawrth. Yn ogystal, gwahoddir swyddogion SCHTh a'r Heddlu i fod yn bresennol fel sy'n briodol i'r agenda. Mae manylion y rhai hynny a wahoddwyd yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cydbwyllgor wedi'u rhestru yn **Atodiad 2.**

Efallai y bydd Aelodau'r Cydbwyllgor yn cyfarfod â'r Archwilwyr Allanol a Mewnol y tu allan i'r amserlen cyfarfod ffurfiol. Rhoddwyd trefniant ar waith i'r Cydbwyllgor Archwilio gyfarfod â'r archwilwyr cyn pob cyfarfod heb reolwyr na swyddogion yn bresennol.

Cynhaliwyd sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn gan aelodau'r CA gan gynnwys diwrnod hyfforddiant CA Cymru gyfan a gynhaliwyd yn y flwyddyn. Cafwyd digwyddiadau eraill yn y dyddiadur ochr yn ochr â'r prif gyfarfodydd ffurfiol.

## 2. Gwaith y Cydbwyllgor yn ystod 2023/24

Drwy gydol 2023/24, cyflwynodd y Cydbwyllgor adroddiad ar natur a chanlyniadau ei waith i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan dynnu sylw at unrhyw feysydd y dylid tynnu eu sylw atynt. Darparwyd diweddariadau ynghylch gwaith pwyllgorau archwilio a meysydd ffocws i'r Prif Gwnstabl fel rhan o'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd i'r Bwrdd Rheoli Strategol. Ar ben hynny, cymerwyd camau er mwyn sicrhau bod dolen adborth effeithiol ar waith rhwng y CA a'r Prif Gwnstabl a'r CHTh ac i'r gwrthwyneb. Cynhaliwyd y rhain fel sesiynau yn y dyddiadur yn cynnwys y bobl berthnasol yn unig. Yn ogystal, gall y Cadeirydd gysylltu â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn uniongyrchol, er mwyn tynnu eu sylw at unrhyw faterion brys.

Ymhlith rhai o'r themâu allweddol a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn oedd:

- Adolygiad o'r datganiadau ariannol blynyddol sy'n canolbwyntio'n benodol ar bolisïau ac arferion cyfrifyddu. Cydnabod y gwelliannau unwaith eto i'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Derbyn sicrwydd ar y strategaeth gyfalaf a strategaeth rheoli'r trysorlys, gyda'r strategaeth gyfalaf yn parhau i fod yn heriol yn yr amgylchfyd allanol presennol
- Adolygu'r strategaeth rheoli risg, ei gweithredu a chyflawni gwelliannau i reoli risg a mapio sicrwydd. Gwneir trwy adroddiadau rheolaidd a chraffu ar adroddiadau at wraidd y mater a flaenoriaethir.
- Derbyn sicrwydd ar yr amgylchfyd rheoli TG gan gynnwys rheolaethau diogelwch seiber a rheoli risg cyffredinol y seilwaith a'r ystâd ymgeisio er mwyn cynnal arian cyfredol
- Yn dilyn yr adolygiad, gan swyddogion, o'r trefniadau llywodraethu a'r strwythurau sy'n derbyn sicrwydd ynghylch gweithredu'r cynllun gweithredu
- Derbyn gwybodaeth, adroddiadau a sicrwydd mwy manwl ar werth am arian
- Derbyn sicrwydd ar yr hunanasesiad a ymgymerwyd gan yr Heddlu o ran Cod Rheoli Ariannol CIPFA
- Derbyn diweddariadau sefydliadol ym mhob cyfarfod chwarterol gan yr Heddlu a SCHTh er mwyn parhau bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau allweddol sy'n digwydd o fewn yr Heddlu a SCHTh
- Sesiynau Briffio neu Adroddiadau at Wraidd y Mater ar: Uned Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Cytundeb Cyflawni Gwasanaeth TGCh, Cyflwyno Gweithio'n Ystwyth, Trefniadau Llywodraethu Cydweithio, Cronfa Strydoedd Diogelach, Diogelwch Merched yn y Nos, Trais yn erbyn Merched a Genethod, Fframwaith Rheoli Ceisiadau, Bygythiadau Diogelwch Seiber, Risgiau TG a Thechnoleg, Cynaliadwyedd a phroses gomisiynu SCHTh.
- Gwaith y pwyllgor moeseg
- Diweddariad yn ymwneud ag arolygon HMICFRS
- Cymryd rhan wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio fewnol, gan gynnwys archwiliadau cydweithredol
- Adolygiad o effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol.
- Cyfarfod â CA Cymru Gyfan
- Dros y flwyddyn, y llu o weithrediadau sydd angen eu dilyn er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i aelodau'r cydbwyllgor.

Cynhelir adolygiad hunanwerthuso cyflawniad ar ddiwedd pob blwyddyn gan aelodau'r CA ochr yn ochr ag adolygiad a gynhaliwyd gan swyddogion SCHTh a'r Heddlu. Mae'r cynllun gweithredu cyfun o 22/23 a 23/24 wedi cael ei drafod a'i adolygu'n breifat sawl gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r camau gweithredu wedi datblygu'n dda er mwyn cynorthwyo datblygiad parhaus y Pwyllgor yn ystod

23/24. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu'r sicrwydd Gwerth am Arian a ddarperir i'r Cydbwyllgor Archwilio a datblygu'r dolenni adborth sydd ar gael rhwng Cadeirydd y CA, y Prif Gwnstabl, a'r CHTh. Cynhaliwyd adolygiad pellach yn ystod mis Ebrill 2024 ynghyd â dadansoddiad o anghenion hyfforddi aelodau'r CA. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei bennu ar gyfer 2024/25.

## 3. Archwilio Mewnol

Comisiynodd Cymru Gyfan adolygiad yn y flwyddyn ynglŷn â'r dull o ymdrin ag archwilio mewnol yn y dyfodol hefo sawl opsiwn yn cael eu hystyried. Ar ddiwedd y gwaith hwn, a oedd yn cynnwys barn y CA, dechreuwyd proses gaffael er mwyn sicrhau darpariaeth archwilio mewnol yn y dyfodol ar draws pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru a'r pedwar SCHTh. Yn unol â chylch gorchwyl y CA wrth benderfynu priodoldeb y gwasanaethau Archwilio Mewnol, mae a bydd aelodau'r cydbwyllgor yn cael eu cynnwys yn y broses hon fel rhanddeiliad. O ystyried y model cydweithredol a weithredodd Archwilio Mewnol ledled plismona Cymru, mae'r sgyrsiau wedi cynnwys aelodau CA HGC ym mhob sgwrs ledled Cymru lle bo'n briodol.

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor sicrhau bod swyddogaeth archwilio fewnol effeithiol. Gwneir hyn drwy adolygu a chymeradwyo'r cynlluniau archwilio mewnol a chynlluniau gwrth-dwyll sy'n seiliedig ar risg. Yn ystod y cyfnod adrodd, darparwyd y swyddogaeth archwilio fewnol gan yr Asiantaeth Archwilio Fewnol (TIAA) fel rhan o gontract dwy flynedd a ddyfarnwyd ym mis Ebrill 2019, gyda'r opsiwn i ymestyn y cyfnod am ddwy flynedd arall. Mae trefniadau contractau tu hwnt i'r tymor presennol o dan adolygiad ar hyn o bryd, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Bydd yn cael ei ymestyn tan fis Medi 2024 wrth i'r broses gaffael gael ei chwblhau hefo chontract newydd yn dechrau yn ddiweddarach yn 2024.

Drwy gydol y flwyddyn, cynorthwyir y CA yn ei waith gan y rhaglen archwilio mewnol sy'n gwerthuso ac yn cyfrannu at y gwaith o wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Mae'r gwaith archwilio mewnol yn darparu archwilio, gwerthuso ac adrodd gwrthrychol ar ddigonolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae pob archwiliad mewnol o fewn y rhaglen flynyddol yn alinio risgiau strategol y Fframwaith Sicrwydd sy'n cefnogi'r ddarpariaeth sicrwydd gwrthrychol yn erbyn rheoli'r risgiau. Mae canfyddiadau allweddol yr archwiliadau mewnol yn cael eu hadrodd i'r CA gan gynnwys sylwadau ar briodoldeb rheolaethau allweddol mewn perthynas â'r risgiau, cryfder y sicrwydd a ddarperir ar gyfer pob risg yn ogystal ag addasrwydd y gweithredoedd lliniaru risg ychwanegol.

Mae archwilio mewnol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gynorthwyo'r Prif Weithredwr er mwyn sicrhau amgylchfyd rheoli effeithiol. Mae ganddo raglen waith wedi'i diffinio'n glir sy'n cynnwys gwaith cynghori yn ogystal ag archwilio.

Roedd y Cydbwyllgor yn goruchwylio rhaglen archwilio mewnol blynyddol 23/24.

Yn ystod 22/23 derbyniodd y Cydbwyllgor dri archwiliad 'Sicrwydd Cyfyngedig'. Rhoddir mwy o bwyslais sylweddol ar archwiliadau sicrwydd cyfyngedig gan y cydbwyllgor. Maent yn cynnwys rheolwyr yr Heddlu neu'r SCHTh yn dod i'r pwyllgorau ynghyd â thracio gweithrediadau'n barhaus yn cael mwy o sylw penodol mewn unrhyw ddiweddariadau rheoli. Yr archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o'r rhaglen 22/23 oedd Eiddo a Atafaelwyd, Rheoli Absenoldeb a Chyflawni Iechyd a Diogelwch. Adroddwyd am gynnydd y camau gweithredu yn fanwl yn ystod 23/24 i'r CA. Cynigiwyd sicrwydd i'r CA bod swyddogion yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddarparu gwelliannau a dealltwriaeth o'r

swydd. Cafwyd rhywfaint o oedi mewn un maes, a archwiliwyd gan y CA sydd wedi cael sicrwydd bod materion yn cael sylw.
Rhoddir y gallu i olrhain a sicrwydd i'r CA ar gyfer holl nodiadau briffio cleientiaid sy'n rhoi tryloywder gweithredu a gymerir gan yr Heddlu neu SCHTh.

Ni chafwyd archwiliadau sicrwydd cyfyngedig ar gyfer 23/24.

Roedd oedi cyn cyflwyno cynllun archwilio 24/25 i gyfarfod mis Mawrth 2023. Fodd bynnag, roedd y cynllun drafft ar gael cyn mis Mawrth. Gofynnir i aelodau'r CA ei adolygu yn ystod mis Ebrill a rhoi unrhyw sylwadau ar y cynllun ar gyfer archwiliadau cynnydd cyn eu trafod yn ffurfiol yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

## 4. Archwilio Allanol

Darperir cytundeb archwilio allanol gan Archwilio Cymru fel y penodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gwnaeth y Cydbwyllgor o Archwilio Cymru dderbyn datganiad datganiad annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd.

Mae canllawiau polisi clir ar waith ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio gan yr Archwiliwr Allanol. Mae mesurau diogelu ar waith sy'n sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am gwmpas a gwerth gwaith ychwanegol a gomisiynir gan yr Archwilwyr Allanol. Ni wnaed unrhyw waith arall nad oedd yn archwilio gan yr Archwilwyr Allanol o fewn y flwyddyn.

Rhoddodd yr archwilwyr allanol eu barn ddiweddaraf ar eu hymdriniaeth archwilio seiliedig ar risg yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2023 a'u meysydd o dan sylw allweddol yn yr archwiliad diwedd blwyddyn drwy adroddiad diweddariad technegol a chynllunio. Ni dderbyniwyd y papur mewn pryd i'w dderbyn cyn y cyfarfod i'w gynnwys fel rhan o'r papurau neu i'w gyhoeddi. Roedd y risgiau allweddol a nodwyd a allai effeithio'r datganiadau ariannol yn 2022/23 yn cynnwys Risg Diystyru Rheolwyr, Gwerth Tir ac Adeiladau a Thrin Gwarged y Cynllun Pensiwn.

Mae'r CA wedi adolygu gwaith yr Archwilwyr Allanol ac mae'n fodlon bod y gwasanaeth archwilio allanol o safon ddigon uchel a bod y ffioedd yn briodol ac yn rhesymol.. Y ffi archwilio allanol ar gyfer 2022/23 oedd £100,023 ynghyd â TAW, sef cynnydd o 15% ar y flwyddyn flaenorol.

Nid oedd y Cydbwyllgor wedi derbyn cynllun blynyddol 2023/24 Archwilio Cymru ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 24. Ni wnaeth Archwilio Cymru fynychu'r cyfarfod. Yn y cyfarfod hwn derbyniodd Lythyr Archwilio Blynyddol 2023 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru yn 'fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio eu hadnoddau.' Bydd cwestiynau a godwyd yng nghyfarfod mis Mawrth gan aelodau'r CA yn cael eu gofyn er mwyn i Archwilio Cymru eu hateb.

## 5. Meysydd i'w Hystyried

Yn ein rôl fel Aelodau'r CA, rydym yn ymgymryd â nifer o weithgareddau y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol a drefnwyd ar faterion sy'n ymwneud â'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd â'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Cyllid, Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ac Archwilwyr Mewnol ac

Allanol a chyfarfodydd pwyllgor penodol sy'n berthnasol i feysydd ffocws arbenigol Aelod fel y'u nodir isod:

| Enw: | Maes Ffocws |
|---|---|
| Rachel Barber | Cadeirydd |
| John Cunliffe | Risg |
| Sarah Davies | Llywodraethu a Moeseg |
| Julie Perkins | Digidol a TG |
| Allan Rainford | Cyllid |

## 6. Llywodraethu

Gwnaeth y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2023/2024. Ei ddiben yw ystyried y fframwaith cyd lywodraethu cyffredinol a sicrhau fod y CHTh a'r PG yn cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion SCHTh a'r Heddlu a Phennaeth Archwilio Mewnol. Mae aelodau'r CA wedi mynychu cyfarfodydd o'r bwrdd. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i bob cyfarfod o'r CA ar eu gwaith.

Derbyniwyd a thrafodwyd drafftiau o'r datganiad llywodraethu blynyddol o ran 2022/23 yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu, lle gwahoddir aelodau'r CA. Roedd aelodau'r CA yn gallu adolygu a rhoi sylwadau ar ddrafft terfynol y Datganiad cyn ei gyflwyno'n derfynol fel rhan o'r adroddiad a'r cyfrifon yng nghyfarfod y CA ar 28 Medi. Trafodir cynnydd Cynllun Gweithredu Llywodraethu Blynyddol 2022/2023 yn rheolaidd yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Cychwynnwyd adolygiad y Llawlyfr Llywodraethu ym mis Mawrth 23 ac felly roedd adolygiad o'r strwythur Llywodraethu. Tra y'i sefydlwyd fel proses flynyddol, mae'r adolygiad hwn wedi cael pwyslais penodol gan arolwg PEEL HMICFRS a ddigwyddodd o fewn yr Heddlu yn ystod 2022. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23 (ac a gyflwynwyd i'r CA ym mis Mawrth 23) yn crybwyll yr elfennau llywodraethu y dylai'r heddlu eu hystyried yn y dyfodol. Gwnaiff y CA fonitro'r cynnydd hwn yn ystod 23/24 ynghyd â'r Meysydd i'w Gwella eraill a nodwyd fel rhan o gynllun gweithredu Adolygiad PEEL.

Darparwyd diweddariad gan y Pwyllgor Moeseg yng nghyfarfod mis Mawrth gyda'r Cadeirydd a'r Dirprwy newydd yn bresennol, gan rannu'r gwaith a wnaed ers penodi'r Cadeiryddion a'r cyfleoedd a welant i'r Pwyllgor Moeseg. Croesawodd y CA y diweddariad hwn.

## 7. Rheoli Risg a Rheolaethau

Mae'r CA yn ceisio sicrwydd fod proses rheoli risg briodol. Mae'n canolbwyntio ar y gofrestr risg strategol gyfunol ac yn ceisio sicrwydd ei fod yn rhesymol, yn gynhwysfawr ac yn ddeinamig. Mae hefyd yn gwirio bod y risg weddilliol yn cyd-fynd ag archwaeth risg y ddau sefydliad. Ym mhob cyfarfod o'r CA mae aelodau'n derbyn ac yn adolygu'r diweddariad rheoli risg ar y broses rheoli risgiau sefydliadol. Mae gan aelodau'r CA fynediad hefyd at gofrestrau SCHTh a'r Heddlu cyn eu cyfarfodydd ffurfiol. Mae'r adrodd yn parhau i esblygu er mwyn darparu mwy o grynoder a thryloywder i'r gwaith mae'r Heddlu yn ei ymgymryd yn y maes hwn. Cyflwynwyd Fframwaith Rheoli Risg yr Heddlu i'r Uwch

Dîm Arweinyddiaeth o fewn yr Heddlu ym mis Gorffennaf ac fe'i cefnogwyd yn llawn. Cyflwynwyd hyn i gyfarfod y CA ym mis Medi.

Mae Adroddiadau at Wraidd y Mater a sesiynau briffio wedi'u hymgymryd yn ystod y flwyddyn yn y meysydd canlynol: Datganiad Rheoli'r Heddlu, Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio, agweddau Technoleg Digidol a Gwybodaeth amrywiol, Strategaeth Gyfathrebu, Risg Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig, ymdriniaeth i Risg, Denu Staff, Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiadau Fforensig, a chadernid TGCh. Mae'r rhain yn cael eu gyrru fel arfer gan y gofrestr risg ac nid ydynt yn rhan o agenda rheolaidd y CA. Mae gweithrediadau dilynol o'r adolygiadau hyn yn cael eu tracio yn ôl yr angen drwy'r cofnod gweithrediadau.

Yn ystod cyfarfod mis Mawrth 23 gwnaeth yr Heddlu amlinellu ei fwriad i gomisiynu adolygiad annibynnol o'i brosesau rheoli risg. Oherwydd sawl ffactor y tu hwnt i reolaeth yr Heddlu, nid ydy hyn wedi digwydd eto hefo amryw o atebion wedi'u harchwilio.

## 8. Gwerth am Arian

Mae nodiadau canllaw CIPFA yn nodi mae cyfrifoldeb statudol y Prif Gwnstabl yw sicrhau Gwerth am Arian. Mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am y cyfrifoldeb hwn. Rôl y CA yw cynorthwyo'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gyflawni eu cyfrifoldebau. Rôl y CA yw ystyried y trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

Ym mis Mawrth 2024, dywedodd Archwilio Cymru 'bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol mewn lle er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eu defnydd o adnoddau'. Roedd hyn yn dilyn ei archwiliad o flwyddyn ariannol 22/23. Graddiodd arolwg PEEL 22/23 yr heddlu fel digonol o ran cynllunio strategol, rheoli sefydliadol a gwerth am arian. Er, nodwyd dau faes penodol i'w gwella yn y maes hwn. Un oedd "Mae'r heddlu angen gwella sut mae'n trosglwyddo ei gynlluniau ariannol a'r heriau mae'n wynebu wrth gyflawni ei wasanaethau." Mae'r CA wedi parhau monitro'r cynnydd o ran y maes hwn ynghyd â'r meysydd i'w gwella eraill.

Yn deillio o gynllun gwerthuso'r CA, yn ystod 23/24 derbyniodd fwy o wybodaeth a gwerthusiad gwerth am arian. Mae'n faes sydd wedi'i gryfhau ac sydd hefo nodwedd amlwg fel arfer yn y sesiwn gaeedig. Mae'r CA yn croesawu hyn ac mae wedi diolch i'r tîm o fewn yr Heddlu am dryloywder a gwaith o fewn y maes hwn yn ystod y flwyddyn.

## 9. Adroddiadau Ariannol a Rheoli'r Trysorlys

Mae'r CA yn mynd ati mewn ffordd gyfannol i gyflawni ei atebolrwydd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

Mae enghreifftiau o weithgarwch penodol y mae'r CA wedi ymgymryd â nhw er mwyn hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu materion o bwys mewn o ran Cyfrifon Statudol 2022/23 yn cynnwys y canlynol:

- Derbyn cyfarwyddiadau gan Swyddogion Cyllid y CHTh a'r Prif Gwnstabl, sydd angen dwyn sylw'r Cydbwyllgor, yn barhaus, at unrhyw newidiadau i'r polisi cyfrifyddu, materion arwyddocaol yn ymwneud ag adroddiadau ariannol, amcangyfrifon a dyfarniadau, a

thrafodion arwyddocaol, gan sicrhau bod y cyfrifon blynyddol wedi'u paratoi yn unol â pholisïau cyfrifyddu

- adolygodd y Cydbwyllgor uniondeb y Datganiadau Ariannol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a chydymffurfiaeth â'r polisi cyfrifyddu ac unrhyw addasiadau arwyddocaol
- cafodd y Cydbwyllgor adroddiadau gan y Prif Swyddogion Cyllid yn manylu ar achosion o dorri amodau a hepgor y broses gaffael a sicrwydd ar gydymffurfiaeth â cholledion a phrosesau taliadau arbennig
- derbyniodd ac adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol drafft er mwyn paratoi ar gyfer eu llofnodi ym mis Medi 2023.
- adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), y Datganiadau a'r Cyfrifon Ariannol Blynyddol er mwyn darparu gwiriad cysondeb a rhesymoldeb
- cyflwynodd y Swyddogion Cyllid bapurau manwl i'r Pwyllgor ar y broses cyfrifon blynyddol yn ystod y cyfnod adrodd diwedd blwyddyn
- ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ISA260 yr archwilydd allanol a barn archwilio heb ei haddasu. Ni thynnwyd sylw at unrhyw wahaniaeth barn gyda'r dyfarniadau rheoli allweddol
- ystyriodd y Cydbwyllgor farn TIAA mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad, a oedd yn darparu Sicrwydd Sylweddol yn gyffredinol.
- Roedd y Cydbwyllgor yn gwerthfawrogi'r tryloywder mewn naratif o ran y llithriant parhaus mewn gwariant cyfalaf a chyflawni prosiectau.
- Croesawodd y Cydbwyllgor y gwelliannau i'r cyflwyniad o'r adroddiad er mwyn gwella eglurder o'r cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol.

O'i waith llwyddodd y CA ddod i'r casgliad:

- bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn cynrychioli barn deg a rhesymol am sefyllfa ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl
- ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi cyfrifyddu
- roedd y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â safonau adrodd ariannol
- adolygwyd meysydd yr oedd angen dyfarniadau sylweddol arnynt wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu
- ni chafwyd unrhyw drafodion arwyddocaol nac anarferol yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Cydbwyllgor dderbyn sicrwydd o gynnydd a chydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA.

Mae'r Cydbwyllgor wedi ystyried adroddiadau chwarterol ar gyflawniad gweithgarwch rheoli'r trysorlys ac wedi adolygu cydymffurfiaeth hefo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gafodd ei gymeradwyo gan y CHTh ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae cywirdeb gwario cyfalaf arfaethedig a'i raddoli wedi cael ei fonitro gan y CA. Mae goblygiadau cyllido cyfalaf dal yn cael ei adolygu. Ym mis Mawrth 2024 gwnaeth y CA ystyried y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25. Argymhellodd fod y CHTh yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

## 10. Codi Pryderon

Nod yr Heddlu yw creu amgylchfyd lle mae staff yn teimlo ei bod yn ddiogel codi a thrafod pryderon a gwendidau yn agored er mwyn gallu sefydlu'r cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer ymateb a'u

monitro i'w rhoi ar waith. Yn ystod 2023/24, cafodd y CA sicrwydd o ran y system ar gyfer codi pryderon fel rhan o'i amserlen fusnes. Bydd hyn yn parhau i 2024/25.

## 11. Dyddiadau Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2024/25

Yn ystod 2024/25 bydd y CA yn cyflawni ei Gylch Gorchwyl ac yn fwy penodol:

- Dilyn ac adolygu'r gweithrediadau o gynllun gweithredu'r Adolygiad Llywodraethu a chynorthwyo gwelliant pellach
- Cael sicrwydd o waith y pwyllgor Moeseg
- Ceisio sicrwydd cydymffurfiaeth gyda'r Cod Rheolaeth Ariannol ac arwain gwelliannau pellach mewn cyflwyniad ariannol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth
- Parhau adolygu sut y cyflawnir gwerth am arian a sut mae hyn yn cael ei amgyffred yn holl waith y CA.
- Parhau adolygu a monitro Rheoli Risg ac olrhain ac adolygu gweithrediadau adolygiad annibynnol y prosesau risg
- Ceisio sicrwydd ar effeithiolrwydd yr amgylchfyd rheoli TG.
- Cael sicrwydd o barodrwydd am ymdriniaeth effeithiol archwilio mewnol 24/25 gan gynnwys cynefino'r cytundeb newydd yn hwyrach yn 24/25
- Cyflawni'r cynllun gweithredu sy'n tarddu o'i adolygiad effeithiolrwydd hunanwerthuso blynyddol
- Monitro cynnydd a chyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer adolygiad PEEL
- Parhau bod yn rhan o'r broses gaffael ar gyfer y darparwr archwilio mewnol
- Cydweithredu hefo'r uwch swyddogion ar fformat papurau'r Cydbwyllgor Archwilio er mwyn cynorthwyo effeithiolrwydd effeithlonrwydd y CA wrth fodloni canlyniadau'r Cylch Gorchwyl
- Adolygu gweithredu'r Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 24/25 ac ystyried goblygiadau unrhyw amrywiadau mewn gwariant cyfalaf yn 24/25 a'r tymor canolig.

Mae gan y CA bedwar cyfarfod wedi'u cynllunio yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25:-

- 30 Gorffennaf 2024
- 26 Medi 2024
- 31 Hydref 2024 (llofnodi Cyfrifon dros dro)
- 28 Tachwedd 2024
- Mawrth 2025, dyddiad i'w gadarnhau

Appendix 1

**Terms of Reference of the Joint Audit Committee**

This Terms of Reference sets out the Joint Audit Committee's position as an advisory committee to support the Police and Crime Commissioner (PCC) and Chief Constable (CC).

**1. Statement of purpose**

**1.1** The purpose of the Joint Audit Committee (the Committee, JAC) is to provide an independent and high-level focus on the adequacy of governance, risk, and control arrangements. Its role is to ensure there is sufficient assurance over governance, risk, and control, which gives greater confidence to the PCC and CC that those arrangements are effective.

**1.2** JAC has oversight of both internal and external audit, together with the financial and governance reports, helping to ensure there are adequate arrangements in place for both internal challenge and public accountability.

**2. Governance risk and control**

2.1.1 The Committee will:

2.1.2 Review the PCC's and CC's corporate governance arrangements against the good governance framework, including the ethical framework, and consider the Manual of Governance (which comprises the Code of Corporate Governance, Scheme of Consent, Financial Regulations, and Standing Orders for Contracts).

2.1.3 Monitor the effective development and operation of risk management in the OPCC and force.

2.1.4 Monitor progress in addressing risk-related issues reported to JAC (individual force operational risk are specifically excluded from the remit of JAC).

2.1.5 Consider reports on the effectiveness of fiscal management arrangements, including with CIPFA's Financial Management Code.

2.1.6 Consider the OPCC's and force's arrangements to secure value for money and review assurances and assessments on the effectiveness of these arrangements.

2.1.7 Review the assessment of fraud risks and potential harm to the OPCC and force from fraud and corruption.

2.1.8 Monitor the counter fraud strategy, actions, and resources.

2.1.9 Review the governance and assurance arrangements for significant partnerships or collaborations.

2.2 The PCC nominates JAC to be responsible for ensuring effective scrutiny of the Capital Strategy and Treasury Management Policy.

## 3. Financial and governance reporting

### 3.1 Governance Reporting

3.1.1 The Committee will:

3.1.1.1 Review the Annual Governance Statement prior to approval by the PCC and CC and consider whether it accurately reflects the risk environment and supporting assurances, including the head of internal audit's annual opinion.

3.1.1.2 Consider whether the annual evaluation for the Annual Governance Statement fairly concludes that governance arrangements are fit for purpose, supporting the achievement of the OPCC's and force's objectives.

### 3.2 Financial Reporting

3.2.1 The Committee will:

3.2.1.1 Monitor the arrangements and preparations for financial reporting to ensure that statutory requirements and professional standards can be met.

3.2.1.2 Review the annual statements of accounts. Specifically, to consider whether appropriate accounting policies have been followed and whether there are concerns arising from the financial statements or from the audit that need to be brought to the attention of the PCC and CC.

3.2.1.3 Consider the external auditor's reports to the PCC and CC on issues arising from the audit of the accounts.

### 3.3 Arrangements for audit and assurance

3.3.1 The Committee will consider the OPCC's and force's framework of assurance and ensure that it adequately addresses their risks and priorities.

## 4. External audit

**4.1** The Committee will:

4.1.1 Support the independence of external audit through consideration of the external auditor's annual assessment of its independence and review of any issues raised by the Auditor General or Audit Wales.

4.1.2 Consider the external auditor's annual letter, relevant reports, and the report to those charged with governance.

4.1.3 Consider specific reports as agreed with the external auditor.

4.1.4 Comment on the scope and depth of external audit work and ensure it gives value for money.

4.1.5 Advise on commissions of additional work from external audit.

4.1.6 Advise and recommend on the effectiveness of relationships between external and internal audit and other inspection agencies or relevant bodies.

4.1.7 Provide free and unfettered access to the audit committee chair for the auditors, including the opportunity for a private meeting with JAC.

**5. Internal audit**

**5.1** The Committee will:

5.1.1 Review for approval the internal audit charter.

5.1.2 Review proposals made in relation to the appointment of external providers of internal audit services and to make recommendations.

5.1.3 Review the risk-based internal audit plan, including internal audit's resource requirements, the approach to using other sources of assurance and any work required to place reliance on those sources.

5.1.4 Consider significant interim changes to the risk-based internal audit plan and resource requirements.

5.1.5 Make appropriate enquiries of both management and the head of internal audit to determine if there are any inappropriate scope or resource limitations.

5.1.6 Consider any impairments to the independence or objectivity of the head of internal audit arising from additional roles or responsibilities outside of internal auditing and to recommend and periodically review safeguards to limit such impairments.

5.1.7 Consider reports from the head of internal audit on internal audit's performance during the year, including the performance of external providers of internal audit services. These will include:

- updates on the work of internal audit, including key findings, issues of concern and action in hand because of internal audit work
- regular reports on the results of the quality assurance and improvement programme
- reports on instances where the internal audit function does not conform to the PSIAS, considering whether the non-conformance is significant enough that it must be included in the Annual Governance Statement.

5.1.8 Consider the head of internal audit's annual report, including:

- the statement of the level of conformance with the PSIAS and the results of the quality assurance and improvement programme that support the statement (these will indicate the reliability of the conclusions of internal audit)
- the opinion on the overall adequacy and effectiveness of the joint framework of governance, risk management and control, together with the summary of the work supporting the opinion (these will assist the Committee in reviewing the Annual Governance Statement)

5.1.9 Consider the summaries of specific internal audit reports as requested.

5.1.10 Receive reports outlining the action taken where the head of internal audit has concluded that management has accepted a level of risk that may be unacceptable to the OPCC or

force or where there are concerns about progress with the implementation of agreed actions.

5.1.11 Contribute to the quality assurance and improvement programme and to the external quality assessment of internal audit that takes place at least once every five years.

5.1.12 Consider a report on the effectiveness of internal audit to support the Annual Governance Statement as required by the Accounts and Audit Regulations (Wales) 2014.

5.1.13 Provide free and unfettered access to the audit committee chair for the head of internal audit, including the opportunity for a private meeting with the committee.

## 6. Accountability arrangements

**6.1** The Committee will:

6.1.1 report to the PCC and chief constable on the Committee's findings, conclusions and recommendations concerning the adequacy and effectiveness of their governance, risk management, and internal control frameworks, financial reporting arrangements and internal and external audit functions.

6.1.2 report to the PCC and chief constable on a regular basis on the committee's performance in relation to the terms of reference and the effectiveness of the committee in meeting its purpose.

6.1.3 publish an annual report on the work of the Committee including a conclusion on the compliance with the CIPFA position statement.

## 7. General

**7.1** The Committee will normally comprise five independent members, who are independent of both the OPCC and force. If it becomes apparent that the membership will fall below four members, recruitment will be undertaken to bring the membership up to five.

**7.2** The quorum for the Committee will be at least 3 independent members.

**7.3** The Committee will meet at least four times each year. Additional meetings may be arranged by exception to discuss matters of urgent concern.

**7.4** The meetings will consist of an open session (which is held in public). If there are agenda items which cannot be discussed in an open session, a closed session will follow.

**7.5** Training and other events take place on a periodic basis, which members are expected to attend.

**7.6** Each member is invited to lead in an area where they have specialist knowledge and may communicate with relevant staff and officers outside of formal meetings to inform the rest of the Committee and to provide assurance to the PCC and chief constable.

Appendix 2

**OFFICERS INVITED TO JOINT AUDIT COMMITTEE**

| **OFFICERS OF NORTH WALES POLICE** | |
|---|---|
| Seb Phillips | Director of Finance and Resources |
| Guto Edwards | Head of Finance |
| Helen Williams | Financial Control Accountant |
| Chief Superintendent Simon Williams | Corporate Services |
| James Sutton | Head of Business Intelligence |
| Anne Matthews | Finance and Budgets Officer |
| Philip Kenyon | Force Solicitor |
| **OFFICE OF THE POLICE AND CRIME COMMISSIONER:** | |
| Stephen Hughes | Chief Executive Officer |
| Kate Jackson | Chief Finance Officer |
| Angharad Jones | Executive Assistant |

| **By Invitation** | |
|---|---|
| Michelle Phoenix | Audit Wales |
| Helen Cargill | TIAA |